



# Grant Gwella Eiddo Canol Trefi

## Canllawiau i ymgeiswyr



## **Pwrpas y grant**

Mae Grant Gwella Eiddo Canol Trefi, a gefnogir drwy Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Cyffredinol Gwynedd, wedi cael ei sefydlu i gefnogi busnesau mewn canol trefi a dinasoedd i ddatblygu ac uwchraddio eu heiddo. Rydym yn cydnabod bod busnesau canol trefi wedi, ac yn parhau i fod, yn wynebu cyfnod heriol yn economaidd.

Mae'r grant ar gael i fusnesau annibynnol, bach a chanolig eu maint sy'n gweithredu neu yn cynllunio i fod yn gweithredu mewn Canol Trefi a Dinasoedd yng Ngwynedd. Mae'r gronfa yn cynnig cefnogaeth ar gyfer gwelliannau ffisegol i eiddo masnachol.

## **Pwy all wneud cais?**

Mae'r grant hon ar gael i fusnesau a mentrau annibynnol, bach a chanolig eu maint yn y lleoliadau isod yng Ngwynedd. Bydd angen i'r eiddo sydd am ei wella fod wedi'u lleoli o fewn y prif ganolfannau masnachol yn y lleoliadau hyn.

- 1) Bangor
- 2) Caernarfon
- 3) Porthmadog
- 4) Pwllheli
- 5) Blaenau Ffestiniog
- 6) Dolgellau
- 7) Tywyn
- 8) Aberdyfi
- 9) Y Bala
- 10) Abermaw
- 11) Harlech
- 12) Penrhyndeudraeth
- 13) Cricieth
- 14) Nefyn
- 15) Abersoch
- 16) Penygroes
- 17) Llanberis
- 18) Bethesda

Yn ogystal, bydd angen i'r busnes:

- Gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus;
- Sicrhau derbyn caniatâd perchennog tir/eiddo i wneud y gwaith.

Nid yw cwmnïau Cadwyn Genedlaethol a Rhyngwladol yn gymwys am gefnogaeth.

## **Am faint allwch chi wneud cais?**

Yn dibynnu ar eich cais, yr isafswm y gellir ei ddyfamu yw £2,500 a'r uchafswm yw £250,000. Os ydych yn ceisio am fwy na £25,000 mi fydd angen i chi ateb cwestiynau manylach. Gall y cyfraniad fod hyd at 70% o werth y gwaith.

Er mwyn cynorthwyo gymaint o fusnesau a posib, i ceisiadau fwy na £25,000 ni allwn dderbyn ceisiadau gan busnesau sydd wedi derbyn, neu wedi'u cymeradwyo i dderbyn:

-Mwy na £25,000 o gronfa Cymunedau Mentrus cynllun ARFOR

-Arian uniongyrchol o Gronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd neu Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru



Rydym yn disgwyl i weddill y 30% o gostau'r prosiect o arian preifat, sef cynilion, neu benthyciad – mi fydd angen i chi dangos prawf fod yr arian yma ar gael i chi cyn allwn ni asesu'ch cais.

Rhaid atodi amcan brisiau gwreiddiol. Mae angen un amcan bris am waith o dan £4,999. Mae angen tri amcan bris os yw cyfanswm y gwaith yn y cais yn fwy na £5,000. Mi fydd unrhyw cynnig grant wedi'i seilio ar y pris isaf sy'n cael ei gyflwyno

Eitemau sy'n costio mwy na £50,000 - Bydd angen mynd allan i dendr ar gyfer pryniannau gwerth mwy na £50,000. Gellir gwneud hyn drwy hysbysebu ar wefan gwerthwchigymru neu drwy hysbysebu yn gyhoeddus ar eich gwefan/ platfformau digidol. Dylid cyflwyno tystiolaeth o'r hysbyseb am dender gyda'ch cais.

### **Amserlen**

Ceisiadau hyd at £25,000 – Byddem yn derbyn ac asesu ceisiadau ar sail cyntaf i'r felin

Ceisiadau dros £25,000 - Rhaid i ni dderbyn eich cais erbyn Dydd Gwener, Medi 29ain, 2023. Byddem wedyn yn asesu'ch cais a bydd gennych chi dim mwy na wythnos i ddarparu unrhyw wybodaeth coll. Cyn belled a'ch bod wedi darparu'r holl wybodaeth mewn pryd, byddem yn asesu ceisiadau o Hydref 6ed, 2023, gan geisio roi ateb i chi o fewn 8 wythnos.

Rydym yn disgwyl I'r ddwy gronfa fod yn poblogaidd iawn a ni fyddem yn gallu cefnogi pob cais

Mae rhai o'r grantiau sy'n cael eu dosbarthu trwy'r gronfa hon yn cael eu cyllido yn rhannol gan Cyngor Gwynedd, ac yn rhannol gan Gronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd, a rhai o'r grantiau yn cael eu cyllido gan Llywodraeth Cymru trwy raglen Trawsnewid Trefi.

Os ydych yn derbyn cynnig grant trwy raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, fydd Rhaid i bob prosiect fod wedi'i cwblhau a hawlio'n llawn erbyn Rhagfyr 31, 2023.

Os ydych yn derbyn cynnig grant trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd a Cyngor Gwynedd, fydd Rhaid i bob prosiect fod wedi'i cwblhau a hawlio'n llawn erbyn Medi 30, 2024.

Os ydych yn llwyddiannus, byddem yn eich hysbysu trwy pa gronfa mae'ch grant wedi'i ariannu

### **Beth ellir ei ariannu?**

Rydym yn edrych i wella gwedd a golwg canol trefi Gwynedd i ddod a'r bwrlwm yn ôl i'n canolfannau masnachol, a denu busnesau yn ôl i'n prif strydoedd. Rydym hefyd yn awyddus i greu a gwella'r stoc o ofod masnachol ar gyfer ein cymuned busnes.

Mae hyn yn gyfle i wneud cais am gymorth ariannol ar gyfer datblygu a gwireddu datblygiadau i eiddo masnachol drwy ariannu gwaith cyfalaf allanol a fydd yn ei uwchraddio. Mi allwn gefnogi gwaith mewnol dim ond fel rhan o becyn gwaith ehangach sydd yn canolbwyntio ar wella tu allan yr eiddo. Mae'n rhaid i'r adeilad fod wedi'i leoli o fewn ffin fasnachol y dref. Mae'r canlynol yn esiamplau o'r hyn fyddai'n gymwys:

- Gwaith uwchraddio i'r adeilad;
- Ffenestri a drysau newydd;
- Arwyddion newydd \*\*

Byddem yn disgwyl i ymgeiswyr gefnogi economi Gwynedd lle'n bosibl, trwy ddefnyddio cyflenwyr lleol.

Ni fydd llafur unigolion ar eu heiddo yn cael ei ystyried yn gymwys.



Os yw'r eiddo dan sylw yn destun cytundeb rhentu/prydles yna dylai'r tenant fod â phrydles gyda 7 mlynedd neu fwy yn weddill ar ddyddiad y cais a dylai fod wedi sicrhau cydsyniad ysgrifenedig ei landlord i'r gwaith arfaethedig.

\*\* Bydd rhaid i unrhyw arwyddion a gwaith hyrwyddo a ariennir fod yn cyd-fynd a Pholisi Iaith Cyngor Gwynedd <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Safonau-r-Iaith-Gymraeg/PolisiIaith2016.Cymraeg.pdf>

Bydd angen i chi yrru lluniau o'r adeilad cyn ac ar ôl y buddsoddiad. Bydd gan swyddog dynodedig o'r Cyngor hawl i ymweld â'r safle i wirio'r gwaith.

Bydd rhaid i'r gwaith ddiwallu gofynion iechyd a diogelwch a bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am gael yswiriant digonol yn ystod, ac ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau fod yr eiddo yn cael ei gynnal a'i gadw i safon.

Ni fydd ceisiadau am newid eitemau cymwys cymeradwy yn cael eu derbyn – ac eithrio yn achos newidiadau tebyg am debyg megis newid brand neu gyflenwr. Ni fyddwn yn cwrdd ag unrhyw costau ychwanegol sydd ynghlwm a unrhyw newidiadau tebyg am debyg.

### **Sut i wneud cais**

Gallwch wneud cais RŴAN cyn belled â bod gennych bob caniatâd. Dim ond ceisiadau cyflawn a chymwys gellir eu prosesu ar gyfer y grant. Ni fydd cais yn gyflawn heb fod y ffurflen gais wedi ei llenwi a bod amcan brisiau gwreiddiol a lluniau o'r eiddo wedi eu uwch lwytho.

Ar gyfer ymholiadau cynllunio yng Ngwynedd (y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri), cysylltwch â [cynllunio@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cynllunio@gwynedd.llyw.cymru).

Ar gyfer ymholiadau cynllunio o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, cysylltwch â [cynllunio@eryri.llyw.cymru](mailto:cynllunio@eryri.llyw.cymru).

Rydym eisiau gwneud y broses hon mor syml â phosib fel y gellir gwneud penderfyniadau yn sydyn a throsglwyddo arian i fusnesau heb oedi. Ar ôl derbyn eich cais, byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais. Bydd pob cais yn cael ei wirio am gyflawnrwydd a chymhwysedd yn erbyn y canllawiau. Yn anffodus, ni allwn brosesu ceisiadau anghyflawn neu anghymwys.

### **Y broses asesu a gwneud penderfyniad**

Bydd eich cais yn cael ei adolygu gan yr Uned Cefnogi Busnes yng Nghyngor Gwynedd. Fydd ceisiadau dros £100,000 hefyd yn cael eu hasesu gan arbenigwyr allanol. Rydym yn disgwyl galw mawr am y grant hwn ac yn anffodus, dim ond cyfran o'r ceisiadau a dderbyniwn fyddwn yn gallu eu cefnogi.

### **Ceisiadau llwyddiannus**

Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn anfon cytundeb ariannu safonol atoch, ynghyd ag unrhyw amodau penodol yn ymwneud â'ch dyfarniad.

Byddwch yn gallu cychwyn ar y gwaith ar ôl i chi ddychwelyd copi o'r cytundeb ariannu. Bydd Cyngor Gwynedd yn eich talu ar sail yr anfonebau a dderbyniwyd ar gyfer y gwerth cytunedig.

### **Monitro ac adborth**

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd gynnwys allbynnau realistig yn y ffurflen gais. Bydd yn ofynnol ar yr ymgeisydd i gwblhau ffurflen monitro gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi hyn ar ddiwedd y cynllun.

Rydym eisiau gwneud y prosesau gwneud cais, asesu a gwneud penderfyniad mor deg a thryloyw â phosib. Rydym yn croesawu adborth adeiladol ar unrhyw un o'n prosesau a gweithdrefnau.



## Rheoli Cymhorthdal Awdurdodau Statudol

Mae'n cronfa yma wedi'i chofrestru fel rhan o Gronfa Datblygu Busnes Gwynedd (rhif cofrestru SC10867), yn unol a'r Deddf Rheoli Cymhorthdal (2022). Mi fydd pob grant dros £100,000 yn cael ei gofrestru yn unigol gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'u Rheolau Tryloywder.

### Cadw deunyddiau cais

Er mwyn cydymffurfio â'n prosesau archwilio, byddwn yn cadw copïau o ffurflenni cais a deunyddiau ategol gan geisiadau a wrthodwyd am flwyddyn wedi dyddiad llythyr gwrthod ac yn cadw ceisiadau llwyddiannus am 10 mlynedd arall hyd 2035 ac fu'u dinistrir ar ôl hynny.

### Gwerthusiad

Efallai y gofynnir i fusnesau sy'n llwyddiannus yn y broses grant i gymryd rhan mewn proses werthuso ar gyfer Cyngor Gwynedd. Felly, drwy dderbyn y grant rhaid i chi fod yn fodlon a gallu cymryd rhan yn y broses hon i'n helpu i ddeall effaith a gwaddol y grant.

### Canllawiau ar gyfer cwblhau yr ffurflen gais

#### Adran 1 - Manylion yr Ymgeisydd

Darparwch wybodaeth fanwl ar enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y busnes presennol. Os yw eich cyfeiriad cartref a busnes yn wahanol, nodwch y ddau os gwelwch yn dda.

#### Adran 2 - Strwythur y Busnes

Yma, rydym angen gwybod statws manwl eich busnes a'r dyddiad a gafodd ei sefydlu. Cofiwch fod y cynllun wedi'i anelu at y categori BBACh: (Busnesau Bach a Chanolig eu Maint, sef cwmni sy'n cwrdd ag o leiaf 2 o' rhinweddau yn y tabl isod:

	Cwmni bach	Cwmni canolog
Trosiant	Dim mwy na £10.2M	Dim mwy na £36M
Cyfanswm Mantolen	Dim mwy na £5.1M	Dim mwy na £18M
Nifer y cyflogai	Dim mwy na 50	Dim mwy na 250

Rydym angen y wybodaeth hon i sicrhau eich bod yn gymwys.

Er dibenion , mae'r Cyngor hefyd angen gwybod a yw'r busnes wedi cofrestru / yn bwriadu cofrestru ar gyfer TAW.

#### Adran 3 - Manylion Cyflogaeth

Nodwch nifer y bobl sy'n gweithio i chi ar hyn o bryd. Mae hefyd angen nodi unrhyw swyddi fydd yn cael eu creu neu eu diogelu o ganlyniad uniongyrchol i'r cais hwn am grant yn bod yn llwyddiannus a'r prosiect yn symud yn ei flaen.

#### Adran 4 - Ystyriaethau Rheoleiddio

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon yn galluogi i swyddogion bennu a yw'r cais yn cynnwys gwariant / gwaith yn ymwneud ag eiddo, rydym angen gwybod manylion perchnogaeth eiddo / prydles a p'un a chadarnhad fod gofynion statudol perthnasol wedi'u sicrhau.



Gan fod y cynllun yn cael ei ariannu'n rhannol gan arian cyhoeddus, mae rhwymedigaethau penodol ynghlwm ag ef. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo a chryfhau cydymffurfiaeth busnes gyda'r rheoliadau a'r polisiau a amlygwyd. Gwnewch yn siŵr fod eich prosiect yn cydymffurfio â phob caniatâd statudol a thrwydded cyn gwneud cais i'r grant hwn.

### **Adran 5 - Amserlen ac Ariannu**

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon yn galluogi i swyddogion bennu i ba ddiben y defnyddir y grant a p'un a yw'n gymwys ai peidio. Ymdrinnir â manylion gwariant manwl eitem fesul eitem yn Adran 6.

- Mae angen costau prosiect er mwyn pennu faint o gefnogaeth grant fydd ei angen. Mae'r Cyngor hefyd angen gwybod manylion cywir ffynonellau ariannu eraill a gynhwysir yng 'nghyfanswm cost' y prosiect. Mae angen gwybodaeth o'r fath er mwyn sicrhau bod y prosiect yn hyfyw ac nad oes unrhyw arian cyhoeddus arall yn cael ei dderbyn gyda hynny.
- Nid yw TAW adenilladwy yn gymwys am gymorth grant.
- Mae'r amcan brisiau yn gymorth i bennu bod y grant yn cael ei dalu am asedau a brynwyd am bris teg.
- Mae'n holl bwysig eich bod yn cadw at yr amserlen ar gyfer y prosiect sydd wedi'i osod allan yn eich ffurflen gais. Ni allwn warantu'r gallu i ymestyn yr amserlen i chi orffen y gwaith, nac i ad-dalu unrhyw gostau sydd wedi'i wneud tu hwnt i'r cyfnod prosiect sydd wedi'i gytuno.

### **Adran 6 - Dadansoddiad o'r Prosiect**

Nodwch yma fanylion pob eitem gwariant a gynhwysir yng nghyfanswm cost y prosiect cyfan yn ogystal ag, a ydych yn ddefnyddio cyflenwr o Wynedd ar gyfer pob eitem o wariant. Os na, nodwch y camau a gymerwyd i ymchwilio i ddefnyddio cyflenwyr o Wynedd a pham na chawsant eu dewis ar gyfer y prosiect.

Dalier sylw Rhaid atodi amcan brisiau gwreiddiol. Mae angen o leiaf un amcan bris am waith o dan £4,999. Mae angen tri amcan bris os yw cyfanswm y gwaith yn y cais yn fwy na £5,000. Am eitemau dros £50,000, bydd angen mynd allan i dendr. Gellir gwneud hyn trwy hysbysebu ar wefan gwerthwchigymru neu drwy hysbysebu yn gyhoeddus ar eich gwefan/platfformau digidol. Dylid cyflwyno tystiolaeth o'r hysbyseb am dendr gyda'ch cais. Mi fydd unrhyw cynnig grant wedi'i seilio ar y pris isaf sy'n cael ei gyflwyno

### **Adran 7 - Manylion Banc y Busnes**

Byddwch yn derbyn taliad grant drwy BACS ac felly mae angen manylion banc.

#### **Gwybodaeth**

Datganiad ffeithiol llwyr yw hwn sy'n ymwneud â diogelu data.

#### **Dogfennau a Thystiolaeth i'w Cynnwys a Datganiad**

Cyn i chi gwblhau'r cais, gwnewch yn siŵr eich bod yn deall pob agwedd o'r cynllun yn llawn a sicrhewch fod yr holl ddogfennau y gofynnwyd amdanynt wedi'u cynnwys.

#### **Ychwanegol**

Rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus cwblhau asesiad Iaith Comisiynydd y Gymraeg Busnesau ac elusennau (comisiynyddygybraeg.cymru) ac ymrwmo i weithio tuag at y Cynnig Cymraeg.

Rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus ymrwmo i weithio tuag at cyflog byw i weithwyr dros 18 oed erbyn Rhagfyr 2024. Mae manylion y cynllun ar gael yma: [Become a Living Wage Employer | Living Wage Foundation](#)

#### **Ymholiadau:**

Os byddwch angen unrhyw arweiniad neu gefnogaeth bellach, cysylltwch â:  
[grantiaubusnes@gwynedd.llyw.cymru](mailto:grantiaubusnes@gwynedd.llyw.cymru)



**Busnes@**  
gwynedd.llyw.cymru

